Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 13 Mehefin 2018

**Hysbysiad o gyfarfod:**

# Cyngor Sir

## Dydd Iau, 21ain Mehefin, 2018 at 2.00 pm,
## Council Chamber - Council Chamber

# AGENDA

*Prayers will be said prior to the Council meeting at 4.55pm. All members are welcome to join the Chairman for prayers should they wish to do.*

| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 2. | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| 3. | **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd a derbyn deisebau** | 1 - 2 |
| 4. | **Fforwm Agored i'r Cyhoedd** | |
| 5. | **Cadarnhau cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Sir:** | |
| 5.1. | **8fed Mai 2018** | 3 - 4 |
| 5.2. | **10fed Mai 2018** | 5 - 14 |
| 6. | **Nodi cofnodion Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus 4ydd Ebrill 2018** | 15 - 20 |
| 7. | **Nodi cofnodion Pwyllgor y Gwasanaethau Cymdeithasol 12fed Mawrth 2018** | 21 - 24 |
| 8. | **Nodi cofnodion y Pwyllgor Archwilio 8fed Mawrth 2018** | 25 - 32 |
| 9. | **Nodi Rhestr Weithredu'r Cyngor Sir** | 33 - 34 |
| 10. | **Adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr** | |

| | | |
|---|---|---|
| **10.1.** | **Bargen Ddinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd - Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu** | 35 - 52 |
| **11.** | **Adroddiad y Pennaeth Gweithrediadau** | |
| **11.1.** | **Sir Fynwy Ddi-blastig** | 53 - 66 |
| **12.** | **Adroddiad y Prif Swyddog ar gyfer Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd** | |
| **12.1.** | **Strategaeth Rhianta Corfforaethol** | 67 - 100 |
| **13.** | **Rhestr o Gynigion** | |
| **13.1.** | **Oddi wrth y Cynghorydd Sir T. Thomas**<br><br>*Mae Cyngor Sir Fynwy'n penderfynu cymeradwyo dogfen Just Food Y Fenni, Towards a Manifesto for Food Justice for Wales, a'i chymeradwyo i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru.*<br><br>*Mae'r Cyngor yn cytuno i ofyn i Swyddogion adrodd ar ffyrdd y mae CSF eisoes yn cyfrannu at nodau'r maniffesto ac ar newidiadau mewn polisi a/neu arfer sydd eu hangen i gyflawni mwy.* | |
| **13.2.** | **Oddi wrth y Cynghorydd Sir D. Batrouni**<br><br>Mae'r Cyngor yn nodi:<br>• Mae diffyg tai gwirioneddol fforddiadwy yn fater difrifol yn Sir Fynwy.<br>• Mae miloedd o drigolion ar y gofrestr tai cymdeithasol.<br>• Mae prisiau tai'n codi'n gyflym a byddant yn dal i wneud hynny pan ddaw tollau Pont Hafren i ben.<br>• Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn cael eu prisio allan o fyth berchnogi'u cartref eu hunain.<br>• Mae awdurdodau lleol yn Lloegr yn cynorthwyo i gwrdd â'r galw drwy gyfrwng Cwmnïau Tai Lleol (CTLl).<br>• Rhagamcanir y byddai gan dros 50% o awdurdodau lleol Gwmni Tai Lleol erbyn 2020.<br><br>Mae'r Cyngor yn penderfynu:<br>• Llunio cynlluniau ar unwaith i sefydlu CTLl yn Sir Fynwy, yn cael ei hwyluso drwy'n strategaeth Rheoli Asedau, drwy gyfrwng y pwyllgor Buddsoddi.<br>• Sefydlu prif amcanion CTLl Sir Fynwy fel rhai i adeiladu cartrefi | |

fforddiadwy ar gyfer pobl leol.

14. **Cwestiynau Aelodau:**

14.1. **Oddi wrth y Cynghorydd Sir A. Easson i'r Cynghorydd Sir R. John**

Yng ngoleuni twf adeiladu tai ar draws Glan Hafren, a allai fod yn fwy na 1000 o dai hyd y gellir rhagweld, gyda phosibilrwydd yn y tymor hwy o hyd yn oed fwy o dai pan weithredir CDLl a adolygwyd. Pa gamau fydd yr Aelod Cabinet dros Addysg yn eu cymryd i ddiwallu'r angen cynyddol disgwyliedig am lefydd ysgol ar draws Glan Hafren?

14.2. **Oddi wrth y Cynghorydd Sir A. Easson i'r Cynghorydd Sir P. Jones**

Yng ngoleuni twf adeiladu tai ar draws Glan Hafren, a allai fod o bosib yn fwy na 1000 o dai hyd y gellir rhagweld, gyda phosibilrwydd yn y tymor hwy o hyd yn oed fwy o dai pan weithredir CDLl a adolygwyd, Pa gamau fydd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd yn eu cymryd i ddiwallu anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymunedau Glan Hafren? Yn enwedig gan na ragwelodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan unrhyw bryderon ynghylch Cyflenwi Gwasanaethau ar adeg yr ymgynghori cyfredol ar y CDLl?

14.3. **Oddi wrth y Cynghorydd Sir A. Easson i'r Cynghorydd Sir B. Jones**

Gyda'r twf mewn adeiladu tai a ragwelir ar draws Glan Hafren, a fydd yn cynyddu symudiadau traffig ac yn achosi problemau i isadeiledd y Priffyrdd. Pa gamau fydd yr Aelod Cabinet dros Weithrediadau'r Sir yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r anghenion am bolisi Trafnidiaeth Strategol realistig ar gyfer cerddwyr, beicwyr a gyrwyr ar draws Glan Hafren?

14.4. **Oddi wrth y Cynghorydd Sir A. Easson i'r Cynghorydd Sir P. Fox**

Yn dilyn ymlaen o'm cwestiynau blaenorol, a ellwch chi fel Arweinydd y cyngor hwn, a hefyd gyda'ch safle ar Brosiect y Fargen Ddinesig, ddefnyddio'ch dylanwad i sicrhau bod y system Metro a phrosiectau cysylltiedig, yn cael eu gweithredu er budd llawn Cymunedau Glan Hafren (ac yn yr ymateb hwn dylai gynnwys Cas-gwent a thu hwnt). Haedda poblogaeth amcanestynedig o bron 50000 o bobl yn cael ei rhannu gan draffyrdd, well cysylltedd trafnidiaeth â gweddill de Cymru a'r ffiniau.

14.5. **Oddi wrth y Cynghorydd Sir A. Easson i'r Cynghorydd Sir S. Jones**

Yng ngoleuni adeiladu tai disgwyliedig ar draws Glan Hafren dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a allai gynyddu'r boblogaeth hyd at 4000, a oes gan yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cymunedol weledigaeth hir dymor i greu profiad cadarnhaol ar gyfer Canol Tref Cil-y-coed i ddenu newydd-ddyfodiaid i'r Gymuned?

14.6. **Oddi wrth y Cynghorydd Sir A. Easson i'r Cynghorydd Sir R. Greenland**

O ganlyniad i adeiladu dros 1000 o dai a thwf yn y boblogaeth ar draws

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Glan Hafren a yw'r Aelod Cabinet dros Arloesi, Menter a Hamdden yn credu y bydd digon o gyfleusterau Hamdden ar gyfer y twf hwn yn y boblogaeth? Pa gamau gweithredu fydd eu hangen i sicrhau parhad gweithgareddau hamdden? | |
| **14.7.** | **Oddi wrth y Cynghorydd Sir A. Easson i'r Cynghorydd Sir P. Jordan**<br><br>O ystyried y newidiadau radical i'r etholaeth o ganlyniad i'r adeiladu tai a gynlluniwyd ac sy'n digwydd ar hyn o bryd ar draws Glan Hafren, a fyddai'r Aelod Cabinet dros Lywodraethu yn ystyried ei bod yn rhy gynnar ar yr adeg hon i weithredu newidiadau mewn Ffiniau Cymunedol, yn enwedig I Gil-y-coed a Portskewett? | |
| **14.8.** | **Oddi wrth y Cynghorydd Sir A. Easson i'r Cynghorydd Sir P. Murphy**<br><br>Bydd y cynnydd rhagamcanol hwn yn y bloblogaeth ar draws Glan Hafren yn gosod mwy o bwysau ar adnoddau Cyngor Sir Fynwy. Sut mae'r Cynghorydd Murphy yn bwriadu mynd i'r afael â'r pwysau ariannol ar gyllidebau Sir Fynwy i sylweddoli'r anawsterau a ddisgwylir a dyheadau Cymunedau Glan Hafren ar yr adeg hon o dwf, a beth fydd eich blaenoriaethau, a sut byddwch chi'n ymdrin â hwy? | |

**Paul Matthews**
**Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr Sir: | P. Clarke<br>D. Batrouni<br>D. Blakebrough<br>M. Powell<br>V. Smith<br>D. Dovey<br>A. Easson<br>R. Edwards<br>D. Evans<br>P.A. Fox<br>R.J.W. Greenland<br>L. Guppy<br>R. Harris<br>J. Higginson<br>G. Howard<br>S. Howarth<br>D. Jones<br>P. Jones<br>S. Jones<br>S.B. Jones<br>P. Jordan<br>P. Murphy<br>B. Strong<br>F. Taylor<br>A. Watts<br>A. Webb<br>K. Williams<br>J.Becker<br>L.Brown<br>A.Davies<br>L.Dymock<br>M.Feakins<br>M.Groucutt<br>R.John<br>L.Jones<br>M.Lane<br>P.Pavia<br>J.Pratt<br>R.Roden<br>T.Thomas<br>J.Treharne<br>J.Watkins<br>S. Woodhouse |

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

**Amcanion y gweithiwn tuag atynt**

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.